Wythnos Gwirfoddolwyr

1af - 7fed o Fehefin 2007

Mae'r wythnos gyntaf ym mis Mehefin wedi hen ennill ei phlwyf yng nghalendr gwirfoddoli erbyn hyn, gan ei bod yn cael ei hadnabod yn genedlaethol fel 'Wythnos Gwirfoddolwyr' ers 23 o flynyddoedd, bellach. Nod yr wythnos yw Cydnabod, Recriwtio a Gwobrwyo gwirfoddolwyr.

Eleni, penderfynodd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd nodi'r achlysur drwy drefnu dau brif weithgaredd:

Stondin Deithiol

Bu'r stondin deithiol yn Nolgellau, Bangor a Phwllheli yn ystod yr wythnos. Gwelir hyn fel cyfle i hyrwyddo gwirfoddoli, recriwtio gwirfoddolwyr newydd a chodi ymwybyddiaeth o wasanaeth y Ganolfan Wirfoddoli. Ymunodd cynrychiolwyr o nifer o fudiadau sydd yn chwilio am wirfoddolwyr â'r stondin - diolch yn fawr iawn iddynt am eu cefnogaeth.

Dolgellau - 1af Mehefin '07

Mirain yn gosod y stondin

Cynrychiolwyr o fudiad MS Meirionnydd a Grŵp Marchogaeth i'r Anabl

Rhoi gwybodaeth i ddarpar wirfoddolwyr

Bangor - 5ed Mehefin '07

Lynne Parry o Hospis yn y Cartref Gwynedd yn rhoi gwybodaeth i ddwy wirfoddolwraig

Cynrychiolwyr o SOVA Cymru a Chymdeithas Alzheimer

Cynrychiolwyr o Claf Arbenigol a Mirain

Pwllheli - 6ed Mehefin

Iola a Margaret - aelod o Is-bwyllgor y Ganolfan Worfoddoli

Dafydd o Menter Felin Uchaf ar y Delyn gyda Helena o'r Hospis yn y Cartref Gwynedd

Te Dathlu a Diolch

Uchafbwynt yr wythnos oedd y 'Te Dathlu a Diolch' a gynhaliwyd yn Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog, Pwllheli, dydd Iau 7fed o Fehefin. Cafwyd prynhawn braf, a chyfle i fwynhau'r lleoliad ar ei orau. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd Dafydd Iwan, a chafwyd anerchiad difyr a phwrpasol ganddo. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gydnabod cyfraniad gwerthfawr gwirfoddolwyr yng Ngwynedd. Yn ystod y prynhawn cyflwynwyd tystysgrifau i nifer o wirfoddolwyr ymroddgar o Wynedd - rhai wedi eu henwebu yn y gystadleuaeth 'Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru', ac eraill yn wirfoddolwyr ifanc oedd yn deilwng o dystysgrifau dan gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Gwirfoddolwyr o Oriel Plas Glyn y Weddw yn mwynhau'r Te.

Margaret Griffit - aelod o Fwrdd Rheoli Mantell Gwynedd oedd yn cadeirio'r prynhawn

Y gŵr gwadd - Y Cynghorydd Dafydd Iwan

Enillwyr Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2007

Yn flynyddol bellach, gwelir y Wobr arbennig yma fel cyfle i gydnabod a gwobrwyo pobl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'w cymunedau. Mae'r wobr yn cael ei gweinyddu gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac ym mis Rhagfyr, bob blwyddyn, gosodir yr her i bobl ar draws Cymru i enwebu rhai sydd wedi eu hysbrydoli gyda'r hyn mae rhywun arall yn ei wneud yn wirfoddol. Eleni, roedd pump categori sef person ifanc dan 25, oedolyn, gwirfoddolwr gwyrdd, ymddiredolwr a grwp. Derbyniwyd 208 o enwebiadau drwy Gymru, a saith ohonynt o Wynedd - pob un ohonynt yn deilwng o dystysgif **'Canmoliaeth Uchel'** dan Wobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2007 i gydnabod eu hymroddiad i wirfoddoli.

Categori Oedolyn

1) Manon Evans - yn gwirfoddoli gyda Chymdeithas Tai Eryri.

Ers 2003, mae Manon wedi bod yn gadeirydd Cymdeithas Tenantiaid yn Nhan-y Grisiau, ac mae ei chyfraniad wedi bod yn allweddol i sawl agwedd o waith y Gymdeithas gan gynnwys codi arian, gweithgareddau cymunedol, Strategaeth Gwrth-dlodi a'r fenter o brynu fflat cymunedol ar y stâd dai. Ar hyn o bryd, mae'n brysur yn datblygu cae chware i blant yn ymyl y fflat. Drwy ei hymdrechion, mae wedi llwyddo i ddod â gwahanol garfannau at ei gilydd, creu ysbryd cymunedol cryf a chodi proffil y stâd. Mae ei phenderfyniad a'i brwdfrydedd yn haeddu cydnabyddiaeth.

2) Laurence Charles Mort - yn gwirfoddoli gyda Chyngor Chwaraeon Meirionnydd.

Mae Laurence yn weithgar gyda sawl mudiad gwirfoddol ym Meirionnydd gan gynnwys Clwb Golff Fairbourne, Grŵp Iachâd a Thangnefedd yn Nolgellau, Clwb Rotari Mawddach yn ogystal â Chyngor Chwaraeon Meirionnydd. Ers 1994 mae wedi dal amryw o swyddi ac ar hyn o bryd mae'n gadeirydd dau fudiad, ac yn ysgrifennydd i un arall. Mae Laurence yn addo llawer, ac mae'r math o berson sydd yn cyflawni'r hyn mae wedi addo. Mae'n haeddu ei gymeradwyo am yr holl waith y mae wedi bod yn ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf, ac am ei barodrwydd i ddal ati.

3) Griff Roberts - yn gwirfoddoli gyda Hosbis yn y Cartref Gwynedd.

Mae ymroddiad Griff i wirfoddoli yn golygu ei fod wedi cyflawni ystod eang o waith gyda'r Hosbis gan gynnwys codi arian, codi ymwybyddiaeth o'r elusen, rhoi cymorth gweinyddol a garddio. Mae'n fodlon ymgymryd ag unrhyw dasg - mawr neu fach, ac mae ei waith diflino yn ysbrydoliaeth i eraill yn y mudiad. Er mai aelod o staff yr Hosbis sydd wedi enwebu Griff, mae'n brysur gyda nifer o fudiadau eraill yng Ngwynedd - Barnardos ac Ambiwlans Awyr Cymru i enwi dim ond dau. Byddai pob mudiad yn croesawu cant o bobl fel Griff!!!

4) Harold Toone - yn gwirfoddoli gyda Gwasanaeth Adfocatiaeth Cymunedol.

Mae Cymdeithas Adfocatiaeth Cymunedol yn fudiad sydd yn rhoi cymorth i bobl i ddatrys eu problemau mewn sawl ffordd, ac mae cyfraniad Harold Toone wedi bod yn allweddol i'r mudiad. Dyma ddyn gofalgar sydd eto yn cynorthwyo nifer o fudiadau yn ei ardal, ac yn eu plith Cymdeithas MS Meirionnydd, Undeb Credyd y Llechen, Cymdeithas Gydweithredol, a'r CAB.

Categori Pobl Ifanc

1) Xanthe Larcombe - yn gwirfoddoli gyda Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor.



Xanthe yw Cadeirydd Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor eleni, ac mae wedi llwyddo i annog rhagor o fyfyrwyr i wirfoddoli, sydd wrth gwrs yn golygu fod rhagor o bobl wedi manteisio o'r gwasanaethau mae'r mudiad yn ei gynnig yn y gymuned. Bu'n llwyddiannus iawn yn cydlynu prosiect glanhau traethau, ac mae traethau Dinas Dinlle, Cricieth a Phorth Neigwl wedi cael sylw gan fyfyrwyr y Brifysgol. Mae hi hefyd yn gwirfoddoli gyda Nawddnos- llinell gymorth ar gyfer myfyrwyr, a bu'n cynorthwyo yn Thailand ar ôl y Tsunami.

Categori Ymddiriedolwyr

1) Gwenfor Roberts - yn gwirfoddoli gyda Chynnal Gofalwyr.

Wedi bod yn ofalwraig ei hun, dechreuodd wirfoddoli gyda Chynnal Gofalwyr ym 1992. Ar hyn o bryd, Gwenfor yw Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynnal Gofalwyr. Mae hi hefyd yn rhan o'r grwpiau rheoli ansawdd, a chynghori rheolaethol. Yn ogystal â hyn mae hi bob amser yn fodlon mynychu cyfarfodydd ar ran y mudiad, cynorthwyo eraill ac mae hi'n uchel ei pharch gan y staff, ei chyd-ymddiriedolwyr, a gofalwyr. Derbyniodd lawdriniaeth ar ei phen-glin yn ddiweddar, ac o fewn dim o dro roedd yn ôl yn ei rôl fel cadeirydd - yn llwyddo i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Llongyfarchiadau a diolch i'r chwech am roi eu hamser, ac am eu hymroddiad cyson i'r gwahanol fudiadau.

Categori Grŵp

1) Cyswllt - Cymdeithas Plant Byddar

Judith Eastwood yn derbyn tystysgrif ar ran 'Cyswllt'

Mudiad elusennol yw Cyswllt sydd yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth i blant byddar a'u teuluoedd. Deunaw mis yn ôl, roedd hi'n ymddangos y buasai'r mudiad yn cau oherwydd problemau ariannol. Drwy ymdrechion a dyfalbarhad yr Ymddiriedolwyr, llwyddwyd i sicrhau arian, symudwyd i leoliad newydd, ac mae'r mudiad yn ffynnu unwaith eto. Enwebwyd Cyswllt gan riant un o'r plant sydd yn elwa o'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu - Llongyfarchiadau i'r mudiad.

Rhaid peidio anghofio, ychwaith, y rhai sydd wedi cymryd y drafferth i enwebu'r chwe unigolyn, a'r grwp arbennig yma - heb eu hymdrech hwy, ni fuasai'n bosibl rhoi clod i'r enillwyr eleni. Felly diolch yn fawr iawn iddynt hwy, a chofiwch - bydd cyfle i enwebu eto dechrau'r flwyddyn nesaf !!